

Atal Clefyddau Anhrosoglwyddadwy

Maniffesto ar y cyd ar gyfer Llywodraeth
nesaf Cymru gan brif elusennau Cymru
ym maes atal clefyddau.



Manylion Cysylltu

Os hoffech wybod rhagor am atal clefydau anhrosglwyddadwy, gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r elusennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

BHF Cymru

Gemma Roberts

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

robertsge@bhf.org.uk

BLF-Asthma UK

Joseph Carter

Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig

jcarter@auk-blf.org.uk

Y Gymdeithas Strôc

Matthew O'Grady

Swyddog Polisi, Gwybodaeth ac Ymgyrchoedd

Matthew.O'Grady@stroke.org.uk

British Liver Trust

Angie Contestabile

Rheolwr Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu

Angie.Contestabile@britishlivertrust.org

ASH Cymru

Suzanne Cass

Prif Swyddog Gweithredol

Suzanne@ashwales.org.uk

Cancer Research UK

Andy Glyde

Uwch-reolwr Materion Cyhoeddus

Andy.Glyde@cancer.org.uk

Diabetes UK

Joshua James

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru

joshua.james@diabetes.org.uk

Mae clefydau anhrosglwyddadwy (NCDs) yn faich enfawr ar y GIG yng Nghymru gan achosi llawer iawn o salwch a marwolaethau. Mae'r clefydau hyn (fel canser, clefyd y galon, strôc, diabetes a chlefydau'r ysgyfaint a'r iau) yn gyfrifol am o leiaf 20,000 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn — dros hanner yr holl farwolaethau¹. Ond wrth i waith ymchwil symud yn ei flaen, daethom i ddeall bod modd atal llawer o'r afiechydon a'r marwolaethau hyn.

Rydym ni, prif elusennau Cymru ym maes iechyd, wedi dod ynghyd i gyflwyno ein cyd-flaenoriaethau fel y gall Llywodraeth nesaf Cymru wella iechyd y genedl a gwarchod ein gwasanaeth iechyd rhag baich clefydau anhrosglwyddadwy.

Mae angen i Gymru ymroi i rymuso pobl i wneud dewisiadau iachach trwy ymyriadau i ostwng lefelau smygu; lefelau gorbwysedd a gordewdra; a lefelau yfed alcohol. Gwyddom fod y rhain i gyd yn effeithio'n waeth ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

Mae etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 yn agosáu. Ac rydym yn galw ag un llais ar i bob plaid wleidyddol yng Nghymru addo wrth bobl Cymru y byddant yn gweithio i ddileu afiechydon a marwolaethau y gellir eu hatal.



Y Broblem

Clefydau anhrosglwyddadwy yw prif achos marwolaethau yng Nghymru. Clefydau'r galon, canser, strôc, clefydau anadlol cronig a diabetes oedd i gyfrif am dros 55% o'r holl farwolaethau yno yn 2019² a gellid bod wedi arbed llawer o'r bywydau hyn trwy gymryd camau i ostwng cyfraddau smygu, yfed alcohol a gordewdra.


Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd ac achosion o glefydau anhrosglwyddadwy. Mae diabetes math 2 yn fwy cyffredin o lawer mewn cymunedau amddifadus³. Diabetes math 2 sy'n achosi un strôc o bob pump ac mae'n eich gwneud 2.5 gwaith yn fwy tebygol o gael trawiad ar y galon neu fethiant y galon⁴.

Yn aml, mae pobl sy'n byw gyda chlefydau anhrosglwyddadwy yn profi dirywiad yn ansawdd eu bywyd. Canser a chlefydau cardiofasgwlaidd yw'r prif gyfranwyr at faich cyffredinol afiechydon a blynyddoedd bywyd a gollir (YLL) yng Nghymru, gan gyfrannu at 37% o flynyddoedd bywyd a addesir yn sgil anabledd a 61% o flynyddoedd bywyd a gollir⁵. Dim ond 61.7 yw disgwyliad oes iach yng Nghymru, yr isaf yn y Deyrnas Unedig⁶. Mae mor isel â 50.7 yn y cymunedau mwyaf amddifadus.

Yn ogystal, mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at yr angen i ddiogelu a chefnogi'r GIG yng Nghymru. Mae tybaco, ar ei ben ei hunan, yn costio £386 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru⁸. Disgwylir y bydd afiechydon a gysylltir â gordewdra yn costio dros £465 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru erbyn 2050⁹. Byddai ymyriadau ar lefel y boblogaeth gyfan a sicrhau bod gwasanaethau cefnogi'n cyrraedd mwy o bobl yn rhyddhau gwelyau mewn ysbytai ac yn gwneud y GIG yn fwy gwydn o lawer.

Mae angen mynd i'r afael ar frys â'r ffactorau cymdeithasol sy'n amharu ar iechyd pobl ledled Cymru. Mae gan Lywodraeth nesaaf Cymru gyfle i helpu pobl Cymru i wneud penderfyniadau er lles eu hiechyd fel eu bod yn llai tebygol o gael afiechydon y gellir eu hatal. Rhaid i bob plaid wleidyddol ymrwymo, cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, i gymryd camau i ddileu clefydau a marwolaethau y gellir eu hatal.

7





£465m

Amcangyfrif o gost flynyddol
gordewdra yng Nghymru
i'r GIG erbyn 2050.



£386m

Cost flynyddol **defnyddio**
tybaco yng Nghymru
i'r GIG.


Yr Achos

Mae smygu, gordewdra ac alcohol yn her enfawr i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Yn ôl yr ystadegau, nid yw Cymru'n gwneud cystal â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig wrth wynebu'r her hon.

Mae Lloegr wedi gosod nod o fod yn genedl ddi-fwg erbyn 2030. Nid yw Cymru wedi gosod nod eto ac, os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, ni fydd Cymru'n ddi-fwg tan 2037¹⁰. Trwy gyflymu'r broses 40%, gallai Cymru fod yn genedl ddi-fwg erbyn 2030¹¹ ac ni fyddai cenhedlaeth arall y gorfod wynebu effeithiau niweidiol tybaco. Mae cyfraddau gordewdra yng Nghymru'n uchel iawn hefyd gyda bron 61% o oedolion Cymru naill ai dros bwysau neu'n ordew¹². Ac mae gordewdra a smygu'n fwy cyffredin o lawer yng nghymunedau tlotaf y genedl.




Mae **20%** o bobl Cymru'n yfed i lefel niweidiol.¹³




14

Cyfraddau Smygu a Gordewdra yn ôl Amddifadedd

Smygwr




BMI 25+ (Dros Bwysau neu'n Ordew)



Gwyddom ers blynyddoedd fod cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng smygu, yfed alcohol a gordewdra, a chlefydau anhrosglwyddadwy. Mae pob un o'r tri ymddygiad niweidiol hyn yn gyfrifol am glefydau a marwolaethau diangen yng Nghymru. Ar lefel fyd-eang, mae tybaco'n achosi mwy o farwolaethau y gellid eu hatal nag unhyw un peth arall¹⁵, ac mae gordewdra wedi'i gysylltu ag un o bob saith marwolaeth gynamserol yn Ewrop¹⁶. Mynegai Mâs y Corff (BMI) uchel yw'r cyfrannwr mwyaf y gwyddom amdano at Flynyddoedd a Gaiff eu Byw gydag Anabledd (YLD)¹⁷.

Mae tystiolaeth yn dod i'r golwg erbyn hyn bod perthynas rhwng y ffactorau risg hyn, yn ogystal, a salwch difrifol yn gysylltiedig â COVID-19. Rhaid i Gymru ddysgu gwersi o ddyddiau'r pandemig gan helpu'r trigolion i wella'u hiechyd cyffredinol. Trwy gymryd camau ym meysydd smygu, yfed alcohol a gordewdra, byddai llai o bobl yn cael clefydau anhrosglwyddadwy ac, yn bwysig, byddai Cymru'n gallu gwrthsefyll achosion posibl o feirysau yn well.



Mae gordewdra wedi'i gysylltu ag
1 o bob 7
marwolaeth gynamserol yn
Ewrop.



**Mae tybaco'n achosi mwy o
farwolaethau y gellid eu hatal
nag unhyw un peth arall yn y byd.**




Mynegai Mâs y Corff (BMI)
uchel yw'r
**cyfrannwr mwyaf y
gwyddom amdano**
at Flynyddoedd a Gaiff eu
Byw gydag Anabledd (YLD).

Yr Ateb

Mae camau a gymerir ar lefel y boblogaeth gyfan yn sicrhau nad yw bwlch anghydraddoldeb iechyd yn lledu a bod pob cymuned yn cael y cyfleoedd gorau i wneud dewisiadau iachach. Mae camau a anelir at unigolion yn hytrach na'r boblogaeth yn llai effeithiol ymhlith grwpiau amddifadus a gallai olygu bod y cymunedau hynny'n cael eu gadael ar ôl wrth ymdrechu i sicrhau Cymru iachach.

Rhaid canolbwyntio ar gamau a gymerir ar lefel y boblogaeth, wedi'u seilio ar reoleiddio ffactorau amgylcheddol cyffredin sy'n hybu'r defnydd o dybaco, alcohol a bwydydd a diodydd nad ydynt yn iachus. Rhaid i Lywodraeth nesaf

Cymru ymrwymo i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cefnogi a dargedir a rhaid sicrhau eu bod yn cyrraedd pawb yng Nghymru y mae arnynt eu hangen.



Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi pennu
pedwar maes gweithredu er mwyn lleihau baich
clefydau anhrosglwyddadwy yng Nghymru:

1. Argaeledd

2. Marchnata

3. Prisio a Hyrwyddo

4. Gwasanaethau Trinlaethau

Argaeledd

Yn yr un modd ag y gall ein hamgylchoedd wella'n hiechyd, gall amgylcheddau nad ydynt yn iachus annog ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd. Os yw eitemau nad ydynt yn iachus ar gael yn hwylus, rydym yn fwy tebygol o'u prynu a daw eu defnyddio'n beth normal i'w wneud.

Pan fydd tybaco¹⁸, alcohol¹⁹ a bwydydd a diodydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgwr (HFSS) ar gael yn fwy hwylus, mae tuedd i iechyd pobl waethygu. O ran rheoli tybaco, er enghraifft, dim ond 45% o'r bobl sy'n credu bod y deddfau ynghylch gwerthu tybaco i blant yn cael eu gweithredu'n effeithiol, sy'n golygu ei bod yn haws i blant gael gafael ar dybaco. Ac mae 38% o bobl yn fwy tebygol o brynu bwyd neu ddiod nad yw'n iachus os yw ar gael yn hwylus ac yn hawdd ei gael²⁰.

Mae cyfyngu ar argaeledd hwyddau sy'n niweidio iechyd yn cyfrannu at eu dadnormaleiddio. Mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod argaeledd alcohol, tybaco a bwydydd a diodydd nad ydynt yn iachus yn cael ei reoleiddio'n well er mwyn grymuso pobl Cymru i wneud dewisiadau iachach. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i atal tybaco anghyfreithlon, sef 15% o'r holl dybaco a werthir yng Nghymru²¹.

Argymhellion

- 1. Grymuso ac annog llywodraeth leol i reoleiddio'r cyfle i fwyta bwyd nad yw'n iachus trwy wella trefniadau cynllunio a chofrestru y sector y-tu-allan-i'r-cartref²².**
- 2. Dylid rhoi'r Gofrestr Tybaco ar waith a rhoi amodau arni e.e. dylai fod yn amod bod pawb ar y gofrestr yn cadw at ddeddfau cyfyngiadau oedran. Byddai hyn yn golygu y gellid gweithredu'n sydyn yn erbyn siopau sy'n torri'r gyfraith a byddai'n creu mecanwaith ar gyfer cyflwyno mesurau newydd o ran argaeledd a phris tybaco heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth. A chydweithio â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gwerthu tybaco'n anghyfreithlon.**
- 3. Ymrwymo i sgwrs genedlaethol, yn cynnwys yr holl bartneriaid allweddol, er mwyn datblygu strategaeth genedlaethol ar argaeledd alcohol gyda'r nod o leihau'r niwed a achosir.**

Marchnata

Mae marchnata nwyddau sy'n niweidio iechyd yn annog pobl i'w defnyddio a hynny'n gwneud drwg iddynt. Fel y gwelsom gyda thybaco dros flynyddoedd lawer, mae rheoleiddio cynnwys y marchnata a faint o farchnata a wneir yn rhan hanfodol o ddull systemau-cyfan o ddadnormaleiddio smygu a hybu bywyd iachach.

Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant²³, lle ceir tystiolaeth gref fod technegau marchnata'n dylanwadu ar y bwydydd y maent yn eu ffafrio, yn eu dewis ac yn eu bwyta, gan niweidio'u hiechyd trwy fwyta mwy a mwy o fwydydd nad ydynt yn

iachus. Yn ogystal, mae marchnata'n arwain plant a phobl ifanc i ddechrau yfed alcohol yn ifancach, ac i yfed mwy. Mae'n bwysig cymryd pob cam i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dylanwad niweidiol yr hysbysebu hwn.

Argymhellion

- 4.** Cyfyngu ar hysbysebu alcohol a bwydydd a diodydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgwr (HFSS). Dylai hyn gynnwys hysbysebu awyr-agored e.e. byrddau hysbysebu, trafndiaeth gyhoeddus, hysbysebu ar y cyfryngau digidol, a noddi digwyddiadau a chwaraeon proffesiynol.
- 5.** Ymrwymo i ymgyrchoedd blynyddol, unigryw ar y cyfryngau torfol, gan dalu sylw i anghenion gwahanol grwpiau o smygwyr er mwyn eu hannog i roi'r gorau iddi, gan dargedu'r cymunedau â'r cyfraddau smygu uchaf. Dylai'r ymgyrchoedd hyn annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu er mwyn iddynt gael cymorth effeithiol i roi'r gorau iddi.

Prisio a Hyrwyddo

Mae angen cefnogi pobl Cymru i wneud dewisiadau iachach. Gellir gwneud hyn trwy wneud prisiau nwyddau sy'n niweidio iechyd yn llai deniadol a gwneud dewisiadau iachach yn fwy fforddiadwy.

Mae Cymru eisoes wedi cyflwyno mesurau ym maes isafbris uned o alcohol (MUPs) ac mae hynny i'w groesawu. Ond mae'n bwysig sicrhau bod yr isafbrisiau'n cyfateb i chwyddiant ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan fod 41% o bobl yn fwy tebygol o brynu alcohol os yw'r prisiau'n gystadleuol²⁴.

Mae hefyd yn hanfodol cymryd camau i reoli cynlluniau i hyrwyddo gwerthiant bwydydd a diodydd HFSS. Mae tua hanner pobl Cymru'n fwy tebygol o brynu bwydydd a diodydd nad ydynt yn iachus os oes borgen arnynt²⁵. Mae cynlluniau hyrwyddo gwerthiant yn gwneud i bobl brynu mwy o fwyd a diod a gwelwyd eu bod yn

cyfrannu at wneud pobl dros bwysau a'n ordew. Er enghraifft, mae pobl y mae'r gyfran fwyaf o'r bwyd a brynant yn rhan o gynllun hyrwyddo gwerthiant 28% yn fwy tebygol o fod yn ordew na phobl nad ydynt yn talu sylw i'r cynlluniau hyn²⁶.

Ar hyn o bryd, nid oes uchafbris ar gyfer tybaco. A heb isafbris/uchafbris, mae cwmnïau tybaco'n addasu ac yn ystumio'u prisiau ac yn dechrau cyflwyno'u cynnyrch fel cynnyrch premiwm er mwyn cyfiawnhau'r pris uwch. Byddai defnyddio isafbris/uchafbris uned ar gyfer tybaco'n cadw'r diwydiant rhag cyflenwi'r cynnyrch rhataf ac yn eu hatal rhag symud codiadau prisiau o gynnyrch rhad i gynnyrch premiwm.

Argymhellion

- 6. Deddfu i gyfyngu ar gynlluniau hyrwyddo gwerthiant bwydydd a diodydd HFSS er mwyn helpu i sicrhau mai'r dewis iachaf yw'r dewis hawsaf.**
- 7. Trefnu i adolygu isafbrisiau unedau alcohol yn barhaus gan dalu sylw i chwyddiant a sicrhau bod y polisi'n cael yr effaith fwyaf wrth leihau niwed alcohol, yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.**
- 8. Casglu tystiolaeth ac ystyried cyflwyno isafbris/uchafbris ar gyfer unedau cynnyrch tybaco. Mae'n bwysig bod gwelliannau i annog defnyddio gwasanaethau triniaethau yn cyd-fynd â hyn.**

Gwasanaethau Triniaethau

Gwasanaethau triniaethau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o roi'r gorau i smygu neu yfed llai o alcohol. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau'n cyrraedd pawb y mae arnynt eu hangen yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod Helpa Fi i Stopio'n effeithiol wrth helpu pobl i roi'r gorau i smygu, dim ond 3.21% o smygwyr ddefnyddiodd y gwasanaeth yn 2018/19²⁷.

Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos bod angen dulliau newydd o gynnig gwasanaethau i helpu pobl sy'n awyddus i roi'r gorau i smocio, yfed llai o alcohol neu golli pwysau. Wrth i'r GIG ddod dros yr argyfwng, yn ogystal â chodi yn ôl i'w lefel flaenorol, mae'n rhaid i wasanaethau

rheoli pwysau, stopio smygu a rheoli yfed ddod yn rhan o'r gwasanaethau craidd sydd ar gael. Fel hyn, gall pobl leihau eu risg o gael clefydau anhrosglwyddadwy a'r cymhlethdodau cysylltiedig, ac fe ddaw Cymru'n fwy abl i wrthsefyll clefydau heintus.

Argymhellion

- 9.** Sicrhau bod adfer gwasanaethau cefnogi ar gyfer rheoli pwysau, stopio smygu a thrin problemau alcohol wrth galon y gwaith o gynllunio adferiad y GIG. Dylai hyn gynnwys rhannu'r hyn a ddysgir am y ffordd y gall technoleg gynnig dewisiadau mwy hyblyg a hygyrch ar gyfer pobl y mae arnynt angen cefnogaeth.
- 10.** Dylid darparu cymorth systematig, trefnus, parhaus i roi'r gorau i smygu er mwyn sicrhau bod pob smygwr yn cael cynnig gwasanaethau mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, yn ogystal â defnyddio fferyllfeydd cymunedol i gynnig gwasanaethau lleol. Dylid rhoi [Model Ottawa](#) ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ar waith ledled Cymru ar ôl ei dreialu, gan dargedu cymunedau mwy amddifadus sydd â chyfraddau smygu uwch.
- 11.** Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau effeithiol i reoli pwysau ym mhob bwrdd iechyd lleol.

Cyfeiriadau

1. Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018). Marwolaethau a gofrestrwyd yn ôl achos, rhyw ac oedran. <https://bit.ly/3oDKKcB>.
2. Ibid.
3. GIG, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes (Cymru). http://www.wales.nhs.uk/documents/diabetesnsf_welsh.pdf.
4. Diabetes UK, Us, Diabetes and a Lot of Facts and Stats. <https://bit.ly/38akWhZ>.
5. GIG Cymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018). Iechyd a'i Phenderfynyddion yng Nghymru. [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/a78e2a8a222a40e28025820b005b5f56/\\$FILE/Health&determinantsinWales_Summary_Welsh.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PubHObservatoryProjDocs.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/a78e2a8a222a40e28025820b005b5f56/$FILE/Health&determinantsinWales_Summary_Welsh.pdf).
6. Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) Health state life expectancies, UK: 2016 to 2018. <https://bit.ly/35ODdPy>.
7. Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019). Health state life expectancies by Welsh Index of Multiple Deprivation. <https://bit.ly/31ZjcVr>.
8. GIG Cymru (2013). <http://www.wales.nhs.uk/newyddion/30585>.
9. Llywodraeth Cymru (2019). Pwysau Iach: Cymru Iach. <https://bit.ly/3oo75KL>.
10. Cancer Research UK (2020) Smoking Prevalence Projections. <https://bit.ly/3mGmZPv>.
11. Ibid.
12. Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). Arolwg Cenedlaethol Cymru. <https://bit.ly/3nluAme>.
13. Ibid.
14. StatsCymru, Ffordd o fyw oedolion yn ôl cwintel amddifadedd MALIC. <https://bit.ly/3nINVnm>.
15. Sefydliad Iechyd y Byd (2019) WHO report on the global tobacco epidemic. <https://bit.ly/3oJtwui>.
16. Jeremy Bray, Primary Care Cardiovascular Journal (2016). Obesity linked to premature death. <https://bit.ly/34lwcjS>.
17. Public Health Wales (2019). Obesity in Wales. <https://bit.ly/3oOG5oz>.
18. NHS Scotland (2018). What is the causal link between tobacco outlet density and smoking prevalence. <https://bit.ly/3oJpQJ5>.
19. Alcohol Focus Scotland (2018). Alcohol outlet availability and harm in the city of Edinburgh. <https://bit.ly/2Jd5k3g>.
20. Arolwg YouGov o 1060 o oedolion (18+) yng Nghymru ar gyfer BHF Cymru, 11-16 Tachwedd 2020.
21. ASH Cymru, Tybaco Anghyfreithlon. <https://bit.ly/39AY2jF>.
22. Obesity Action Scotland. <https://bit.ly/3kLrNCo>.
23. Alcohol Focus Scotland (2018). 10 year olds more familiar with beer brands than biscuits. <https://bit.ly/37REKAp>.
24. Arolwg YouGov o 1060 o oedolion (18+) yng Nghymru ar gyfer BHF Cymru, 11-16 Tachwedd 2020.
25. Arolwg YouGov o 1060 o oedolion (18+) yng Nghymru ar gyfer BHF Cymru, 11-16 Tachwedd 2020.
26. Cancer Research UK (2019). Paying the Price. <https://bit.ly/37RF6hf>.
27. StatsCymru (2019). Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu 2018-2019. <https://bit.ly/2L6uHoS>.

Manylion Cysylltu

Os hoffech wybod rhagor am atal clefydau anhrosglwyddadwy, gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r elusennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

BHF Cymru

Gemma Roberts

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

robertsge@bhf.org.uk

BLF-Asthma UK

Joseph Carter

Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig

jcarter@auk-blf.org.uk

Y Gymdeithas Strôc

Matthew O'Grady

Swyddog Polisi, Gwybodaeth ac Ymgyrchoedd

Matthew.O'Grady@stroke.org.uk

British Liver Trust

Angie Contestabile

Rheolwr Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu

Angie.Contestabile@britishlivertrust.org

ASH Cymru

Suzanne Cass

Prif Swyddog Gweithredol

Suzanne@ashwales.org.uk

Cancer Research UK

Andy Glyde

Uwch-reolwr Materion Cyhoeddus

Andy.Glyde@cancer.org.uk

Diabetes UK

Joshua James

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru

joshua.james@diabetes.org.uk

